CYNLLUN GWEITHREDU RHYWOGAETH


LLun / Photo: Janet Baxter

# Dolffin trwynbwl

*Tursiops truncatus*

## Disgrifiad / Ecoleg

Mae'n debygol mai dolffiniaid trwynbwl yw'r dolffiniaid mwyaf cyfarwydd yn y DU, gyda phig hir ac asgell ddorsal ôl-blygedig nodweddiadol. Gallant dyfu i fod yn 3-4 metr o hyd ac maent yn gallu byw yn eu cynefin am 40-50 o flynyddoedd neu fwy. Maent yn fwytawyr manteisgar ac yn bwyta ystod eang o bysgod a chregynbysgod. Mae eu gallu i addasu, yn enwedig o ran strategaethau bwydo a diet, wedi cyfrannu at lwyddiant y rhywogaeth hon mewn cynefinoedd amrywiol.

## Dosbarthiad yng Ngheredigion

Ym Mae Ceredigion, mae'r holl amcangyfrifon yn cyfeirio at boblogaeth cymharol fach ond arwyddocaol o oddeutu 100 i 200 o unigolion. Gwelir dolffiniaid trwynbwl yn rheolaidd, yn aml yn bwydo neu'n teithio mewn grwpiau ac fe'u gwelir amlaf oddi ar bentiroedd ac yn y safleoedd mwy cysgodol yng Ngheinewydd, Mwnt, Ynys Aberteifi ac Aber Afon Teifi. Nid yw'r tueddiadau poblogaeth ym Mae Ceredigion yn hysbys, ond mae presenoldeb dolffiniaid bychain newydd-anedig ac ifanc iawn yn cadarnhau mai'r Bae yw eu safle magu dewisol. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn cyfeirio at ddirywiad yn eu niferoedd yn nyfroedd y DU yn y tymor hir.


## Ffactorau sy'n effeithio ar y cynefin/rhywogaeth yng Ngheredigion

- Llygredd o bell, er na cheir llygredd difrifol hysbys yng Ngheredigion.
- Amharu gan sŵn tanddwr ac ymddygiad cychod
- Y bwyd sydd ar gael.

## Beth sy'n cael ei wneud yn lleol?

Mae dwy rhan o dair o ddyfroedd arfordirol Ceredigion yn cael eu diogelu a'u rheoli fel Safleoedd Morol Ewropeaidd a lluniwyd cynllun rheoli ar gyfer nodwedd dolffin trwynbwl Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion yn 2001. Mae amrywiaeth o asiantaethau a sefydliadau anllywodraethol yn gyfrifol am raglen arolygu a monitro, ynghyd â nifer o brosiectau addysgiadol i wella dealltwriaeth pobl o ddolffiniaid.

SPECIES ACTION PLAN




# Bottlenose dolphin,

*Tursiops truncatus*

## Description / Ecology

Bottlenose dolphins are probably the most familiar UK dolphins, with a long beak and a characteristic swept back dorsal fin. Reaching lengths of 3-4metres they may survive in the wild for 40-50 years or more. They are opportunistic feeders and eat a wide range of fish and shellfish. Their adaptability, particularly in diet and feeding strategies, has contributed to this species success in diverse habitats.

## Distribution in Ceredigion

In Cardigan Bay, all estimates indicate a relatively small but significant population of around 100 to 200 individuals. Bottlenose dolphins are seen regularly, often feeding or travelling in groups, and are most frequently sighted off headlands and in the more sheltered areas of New Quay, Mwnt, Cardigan Island and the Teifi Estuary. Population trends in Cardigan Bay are unknown, but presence of newborn and very young calves confirms that the Bay is a favoured breeding area. Anecdotal evidence points to a long-term decline around UK waters.

## Factors affecting the habitat/species in Ceredigion

- Long-range pollution, though there is no known serious pollution in Ceredigion.
- Disturbance from underwater noise and boat behaviour
- Food availability.

## What is being done locally?

Two thirds of the coastal waters of Ceredigion are protected and managed as European Marine Sites and a management plan for the bottlenose dolphin feature of the Cardigan Bay Special Area of Conservation was produced in 2001. A programme of survey and monitoring is undertaken by a variety of agencies and NGOs, together with a number of educational projects to improve people's understanding of dolphins.

## Targedau

Nid yw union statws dolffiniaid yn hysbys felly mae'n amhosibl pennu targedau penodol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bwriadwn sicrhau gwybodaeth bellach a fydd yn helpu i arwain targedau a gweithgarwch rheoli yn y dyfodol er mwyn:

- Sicrhau na cheir gostyngiad yn ystod daearyddol presennol y dolffin trwynbwl yn unol â newid naturiol
- Sicrhau na cheir gostyngiad yn niferoedd y dolffiniaid trwynbwl, yn unol â newid naturiol.

## Yr hyn y gallwch chi ei wneud i helpu

Dilyn Cod Ymddygiad Cadwraeth Morol Ceredigion pan fyddwch allan ar y môr; cymryd rhan mewn rhaglenni monitro blynyddol ac adrodd pan fyddwch yn gweld dolffiniaid neu pan fyddwch yn gweld rhai wedi'u dal; cyfranogi mewn trafodaethau ynghylch trefniadau i reoli ACA Bae Ceredigion yn y dyfodol; adrodd digwyddiadau lle'r amharir ar ddolffiniaid yn fwriadol neu mewn ffordd ddiofal; cymryd rhan mewn gweithgarwch a drefnwyd i lanhau Traethau

## Gwybodaeth bellach

- Tabl gweithredu (rhan 2 cynllun dolffin trwynbwl) am fanylion ynghylch gweithredu lleol
- Cynllun Grŵp y DU i Ddolffiniaid Bach (ar gael ar www.ukbap.org.uk)
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (ar gael ar www.ceredigion.gov.uk)
- Swyddog Bioamrywiaeth, Adain Arfordir a Chefn Gwlad, Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai (DESH), Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA saraha@ceredigion.gov.uk 01545 570881
- ACA Bae Ceredigion www.cardiganbaysac.org.uk

**Prif bartner:** Cyngor Sir Ceredigion: Adain Arfordir a Chefn Gwlad, Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai (DESH), Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA 01545 570881

**Dyddiad y cynllun a diweddariadau**: Awdur M Green 2004 Diweddarwyd gan L Allan 2006, ymgynghoriad gydag A Cooke

**Cysylltiadau â chynlluniau eraill:** Mae'r trefniadau rheoli ar gyfer rhai mathau eraill o rywogaethau a chynefinoedd yn cyd-fynd â'r hyn sy'n briodol ar gyfer Dolffin trwynbwl e.e. Llamhidydd harbwr

## Targets

The exact status of dolphins is unknown, so specific targets are currently impossible to set. However, we aim to obtain further information that will help guide future management and targets to:

- Ensure that there is no reduction in the bottlenose dolphin's current geographical range subject to natural change
- Ensure that there is no reduction in the abundance of bottlenose dolphin, subject to natural change.

## What you can do to help

Follow the Ceredigion Marine Conservation Code of Conduct when out at sea; take part in annual monitoring programmes and report dolphin sighting and strandings; participate in discussions regarding the future management of the Cardigan Bay SAC; report incidents of reckless or deliberate dolphin disturbance; take part in organised Beach cleans

## Further information

- Actions table (Bottlenose dolphin plan part 2) for details of local action
- UK Grouped Plan for Small Dolphins (available on www.ukbap.org.uk)
- Ceredigion Local Biodiversity Action Plan (available on www.ceredigion.gov.uk)
- Biodiversity Officer, Coast & Countryside Section, Department of Environmental Services and Housing (DESH), Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA saraha@ceredigion.gov.uk 01545 570881
- Cardigan Bay SAC www.cardiganbaysac.org.uk

**Lead partner:** Ceredigion County Council: Coast & Countryside Section, Department of Environmental Services and Housing (DESH), Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA 01545 570881

**Date of plan & updates**: Author M Green 2004 Updated by L Allan 2006, consultation with A Cooke

**Links to other Plans:** Management for many species and habitats is compatible with that for bottlenose dolphin e.g. : Harbour porpoise